# Datganiad o Ddiben

2026

Calon Cymru Fostering

# Cynnwys


Cyflwyniad 3

Swyddfeydd Cofrestredig 4

Adeiladau a Chyfleusterau 4

Rheoli'r Gwasanaeth 5

Safonau Gofal a Chymorth 6

Gwasanaethau a Ddarperir 7

Y Broses Baru 8

Cymorth i'n Teuluoedd Maeth 9

Y Broses Recriwtio ac Asesu 11

Y Broses Gwynion 11

Recriwtio a Rheoli Staff 12

Sicrhau Ansawdd a Llywodraethiant 12

Amrywiaeth a Chynhwysiant 13

Cymryd Rhan 13

Iaith a Chyfathrebu 14

Cysylltiadau Defnyddiol 15

# Cyflwyniad

**Mae'r Datganiad o Ddiben hwn wedi'i ddatblygu yn unol â chyfraith a rheoliadau statud priodol, gan gynnwys y canlynol:**

- Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.
- Rheoliadau Gwasanaethau Maethu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2019.
- Rheoliadau Paneli Maethu (Sefydlu a Swyddogaethau) (Cymru) 2018.

**Ei nod yw rhoi gwybodaeth i blant, pobl ifanc, rhieni, gofalwyr, staff a gweithwyr proffesiynol eraill am yr asiantaeth a'r gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarparwn, gan gynnwys y canlynol:**

- Manylion ynghylch nodau ac amcanion Calon Cymru Fostering.
- Gwybodaeth am y gwasanaethau a'r cyfleusterau a ddarperir gan Calon Cymru Fostering.

**Mae copi o'r datganiad ar gael ar gais i'r canlynol:**

- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).
- Awdurdodau lleol y gwasanaeth.
- Unrhyw unigolyn sy'n gweithio i neu gyda'r gwasanaeth maethu (Calon Cymru Fostering).
- Unrhyw blentyn (yn amodol ar oedran a dealltwriaeth) sydd wedi'i leoli gyda'r gwasanaeth maethu.
- Unrhyw riant neu warcheidwad unrhyw blentyn sydd wedi'i leoli gyda'r gwasanaeth maethu.
- Mae plant a phobl ifanc hefyd yn cael canllawiau croeso sy'n briodol i'w hoedran, sydd mewn fformatau mwy addas iddyn nhw eu deall.

**Datganiad o Angen.**

Mae Calon Cymru yn darparu cartrefi maeth i blant 0–18 oed ac mae hyn yn cynnwys darparu gofal maeth i rieni a phlant gyda'i gilydd. Mae'r plant rydyn ni'n gofalu amdanyn nhw'n cael eu cyfeirio atom ni gan awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn aml maen nhw'n blant sy'n dod o gefndir camdriniaeth ac esgeulustod. Rydym yn darparu gofal tymor byr, tymor hir, seibiant ac argyfwng.

Mae gennym brofiad o ddarparu gofal arbenigol i blant ag anghenion uchel, anableddau a niwrowahaniaeth.

Caiff y Datganiad o Ddiben hwn ei adolygu o leiaf unwaith y flwyddyn gan y Tîm Uwch-reolwyr.

Dyddiad adolygu: Chwefror 2026

# Swyddfeydd Cofrestredig

**Mae Calon Cymru yn asiantaeth faethu sydd wedi'i lleoli yng Nghymru gyda phencadlys yng Nghaerdydd a swyddfa arall yng Nghaerfyrddin. Mae ein gofalwyr maeth wedi'u lleoli yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ledled y De-ddwyrain a'r Gorllewin. Mae Calon Cymru yn rhan o grŵp asiantaethau maethu BSN.**

**Swyddfa Gofrestredig Calon Cymru Fostering:**

Pathway Care Ltd
4 Jardine House
Harrovian Business Village
Bessborough Road
Harrow
England
HA1 3EX

**Prif Gangen Calon Cymru Fostering:**

12 Lambourne Crescent
Cardiff Business Park
Llanishen
Cardiff
CF14 5GF

**Swyddfa Ranbarthol Calon Cymru Fostering:**

Suite 6
Ty Myrddin
Old Station Road
Camarthen
SA31 1LP

# Adeiladau a Chyfleusterau

Mae gan ein swyddfeydd yng Nghaerdydd a Chaerfyrddin gyfres o ystafelloedd ar gael ar gyfer hyfforddiant a chyfarfodydd. Mae gan y ddwy swyddfa ystafell sy'n addas i blant ar gyfer cyswllt teuluol a therapi. Mae parcio am ddim ar gael ar y safle. Mae gan bob gweithiwr ei fan gwaith ei hun yn y swyddfa yn ogystal â'r opsiwn ar gyfer gweithio hybrid.

# Rheoli'r Gwasanaeth

Scott Ruddock, y **Cyfarwyddwr Rhanbarthol,** sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am gydymffurfedd, diogelwch a rheolaeth esmwyth yr asiantaeth. Mae hyn yn cynnwys ystyried llywodraethiant, cyllideb, staffio a chynllunio strategol. Mae gan y Cyfarwyddwr Rhanbarthol gyfrifoldeb hefyd am sicrhau bod yr asiantaeth yn gweithio yn unol â deddfwriaeth a chanllawiau statudol.

Yn bwysicach fyth, mae gan y **Cyfarwyddwr** Rhanbarthol gyfrifoldeb am ddatblygu diwylliant cyffredinol sy'n canolbwyntio ar gyflawni'r canlyniadau gorau posibl i blant a phobl ifanc.

Claire Stonier, y **Cyfarwyddwr** (Rheolwr Penodedig), sy'n gyfrifol am weithrediadau o ddydd i ddydd o fewn y sefydliad, sy'n cynnwys cymorth i blant a phobl ifanc, gofalwyr maeth, a gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdodau lleoli. Mae'r Cyfarwyddwr hefyd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfedd â rheoliadau ac am edrych ar ffyrdd arloesol o wella ansawdd y gwasanaeth a ddarperir. Mae'r Cyfarwyddwr yn chwarae'r rôl allweddol mewn diogelu. Mae Claire yn cael ei chefnogi gan y Cyfarwyddwr Rhanbarthol fel ei rheolwr llinell, i ddarparu cymorth mentora personol.

Mae gan Scott a Claire brofiad sylweddol mewn gwaith cymdeithasol o fewn y sectorau statudol ac annibynnol. Mae'r ddau yn weithwyr cymdeithasol cymwys ac wedi gweithio ym maes diogelu a maethu ers blynyddoedd lawer, boed yn rôl uwch-reoli, ymarfer neu ddatblygu. Mae ganddyn nhw ystod o gymwysterau, gan gynnwys MA, BA a DipSW.

Mae'r **Tîm Rheoli** yn cynnwys y Cyfarwyddwr Rhanbarthol, y Cyfarwyddwr, tri Rheolwr Gweithredol, dau Ddirprwy Reolwr Gweithredol, y Rheolwr Recriwtio, y Rheolwr Sicrhau Ansawdd, y Rheolwr Dysgu a Datblygu, y Rheolwr Swyddfa a'r Rheolwr Lleoliadau.

Mae'r **Tîm Rheoli** yn cyfarfod yn rheolaidd. Pwrpas hyn yw darparu cyfeiriad strategol cyffredinol ar gyfer y sefydliad. Mae'r Tîm Rheoli hefyd yn mynychu cyfarfodydd ymarfer a datblygu gwaith cymdeithasol.

Mae gan yr asiantaeth **Fwrdd Diogelu** i sicrhau bod y diwylliant diogelu ar draws y sefydliad yn dilyn deddfwriaeth, polisi a chanllawiau ymarfer. Mae'r arweinydd diogelu (y Cyfarwyddwr) yn mynychu'r Bwrdd Diogelu.

Mae gennym **Reolwr Arbenigol** sy'n goruchwylio ein Gwasanaeth Rhieni a Phlant ac yn darparu cymorth asesu a chynllunio gofal i awdurdodau lleol.

Mae cyfanswm o 19 o weithwyr cymdeithasol yn darparu goruchwyliaeth i'n gofalwyr maeth a chwech o weithwyr cymorth sy'n darparu cymorth uniongyrchol i'n plant a'n pobl ifanc.

Mae gennym weithiwr addysg ymroddedig sy'n darparu pecynnau dysgu wedi'u teilwra.

# Safonau Gofal a Chymorth

## Yn Calon Cymru Fostering, credwn fod pob plentyn yn bwysig a bod anghenion, llesiant a budd pennaf plant a phobl ifanc yn hollbwysig..

**Yn Calon Cymru Fostering, rydym yn credu'r canlynol:**

- Mae gan bob unigolyn hawl gynhenid i ddatblygu ei botensial, waeth beth fo'i brofiadau bywyd blaenorol
- Mae gan blant a phobl ifanc hawl i gael gofal gan oedolion sy'n cynnig parch, gofal a hoffter
- Mae angen i oedolion barchu arwyddocâd teulu biolegol, hil, diwylliant a chrefydd y plentyn
- Mae gan blant a phobl ifanc yr hawl i gyflawni'r canlyniadau gorau posibl, yn unol â saith nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc
- Dylai pobl ifanc gael eu paratoi'n addas ar gyfer gadael gofal: gan adael eu lleoliad Calon Cymru Fostering gyda chynilion, cyrhaeddiad addysgol i gefnogi eu gyrfa ddewisol, a sgiliau addas ar gyfer annibyniaeth
- Dylid rheoli'r asiantaeth yn foesegol, yn effeithiol ac yn effeithlon
- Mae'r holl staff, gofalwyr maeth ac oedolion eraill sy'n dod i gysylltiad â phlant drwy Calon Cymru Fostering yn destun gwiriadau a gweithdrefnau fetio trylwyr

**Yn ogystal, bydd Calon Cymru Fostering yn gwneud y canlynol:**

- Cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol
- Sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hyrwyddo yn unol â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Sicrhau bod gweithdrefnau amddiffyn plant yn cael eu dilyn yn gadarn bob amser i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu
- Gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol i nodi anghenion unigol a chanlyniadau a nodwyd ar gyfer y plentyn ac yna darparu'r gofal hwnnw
- Sicrhau nad yw gofalwyr maeth yn defnyddio cosb gorfforol, eu bod yn fedrus mewn rheoli ymddygiad, ac nad ydynt yn gwneud unrhyw beth sy'n diraddio, yn israddio nac yn gwaradwyddo'r unigolyn ifanc yn eu gofal
- Sicrhau bod cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael eu hyrwyddo bob amser, drwy recriwtio, asesu, paru a chymorth lleoliad

# Gwasanaethau a Ddarperir

**Nod Calon Cymru Fostering yw gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i sicrhau bod ystod eang o leoliadau maeth yn cael eu darparu i blant a phobl ifanc rhwng 0 a 18 oed. Yn Calon Cymru Fostering, rydym yn credu mai ein rôl ni yw cynnig gwasanaeth cyflenwol i awdurdodau lleol i alluogi darparu opsiynau gofal maeth diogel, sicr a phriodol, gan gynnwys fel a ganlyn:**

**Maethu Safonol:**

Lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc nad ydynt wedi'u hasesu fel rhai sydd ag anghenion mwy cymhleth, a fydd yn cynnwys tymor byr, tymor hir, seibiant ac argyfwng.

**Maethu Brodyr a Chwiorydd:**

Mae'r asiantaeth yn cydnabod pwysigrwydd brodyr a chwiorydd yn aros gyda'i gilydd os asesir bod hynny er eu budd pennaf.

**Maethu Unigol:**

Lle asesir bod angen un lleoliad ar blant a phobl ifanc, ni leolir unrhyw blant eraill yn yr aelwyd honno.

**Plant Digwmni sy'n Ceisio Lloches:**

Plant a phobl ifanc sy'n ceisio lloches yn y DU sydd wedi cael eu gwahanu oddi wrth eu rhieni neu eu gofalwyr.

**Maethu Rhieni a Phlentyn/Plant:**

Lleoliadau ar gyfer rhieni unigol neu gyplau gyda'u babanod / plant ifanc. Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd cefnogol lle gellir asesu sgiliau magu plant mewn partneriaeth â'r awdurdod lleoli.

Mae gofalwyr maeth rhieni a phlant yn cael hyfforddiant arbenigol ychwanegol ac ymweliadau bob pythefnos gan weithiwr cymdeithasol goruchwyliol. Mae rhieni hefyd yn cael mewnbwn gan weithiwr cymorth rhieni a phlant i gynorthwyo gyda datblygu sgiliau magu plant.

**Cymorth Addysg:**

Mae gennym Bennaeth Addysg a gweithiwr addysg sy'n darparu cymorth pwrpasol wedi'i dargedu i'n plant a'n pobl ifanc. Mae'r cymorth hwn yn amrywio o becynnau dysgu arbenigol, cyngor i athrawon a darparu cymorth ar-lein i bobl ifanc, i eirioli dros ddarpariaeth anghenion addysgol arbennig (AAA) ac apelio yn erbyn penderfyniadau gwahardd.

**Gwasanaeth Maethu dan Arweiniad Therapiwtig (Lefelau Therapiwtig Uchel):**

Lleoliadau ar gyfer plant a phobl ifanc â lefel uchel iawn o gymhlethdod. Mae'r gwasanaeth yn darparu pecyn gofal a chymorth therapiwtig penodol trwy dîm o amgylch y plentyn. Mae lefelau cymorth i'r gofalwr maeth yn uchel ac yn cynnwys mewnbwn gan Wasanaethau Seicolegol Studio III. Mae gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol yn ymweld â'r gofalwr maeth bob pythefnos, ac mae gweithiwr cymorth ymroddedig a chyson yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r plentyn.

**Maethu Gofal+ (Lefelau Therapiwtig Isel):**

Mae'r gwasanaeth Gofal+ yn 'gam i lawr' o'r gwasanaeth Maethu dan Arweiniad Therapiwtig sy'n diwallu anghenion plant a phobl ifanc sydd â lefel is o gymhlethdod ond sydd dal angen cymorth seicolegol fel rhan o dîm o amgylch y plentyn.

Mae gofalwyr maeth Maethu dan Arweiniad Therapiwtig a Gofal+ yn cael hyfforddiant arbenigol i'w cyfarparu â'r sgiliau angenrheidiol i gynorthwyo plant i reoleiddio emosiynau a rheoli straen.

# Y Broses Baru

**Yn Calon Cymru Fostering, rydym yn cydnabod bod pob plentyn ac unigolyn ifanc yn unigolyn unigryw. Felly, mae pob trefniant maethu yn cael ei 'baru' yn ofalus i sicrhau y gall anghenion plant a phobl ifanc gael eu diwallu orau gan y gofalwyr maeth a awgrymir.**

Rydym yn cwblhau asesiad paru ysgrifenedig cyn cynnig cartref maeth posibl i awdurdod lleol. Mae'r asesiad hwn yn ystyried anghenion y plentyn, gan gynnwys ei anghenion iechyd, addysg, hunaniaeth, iaith, hil, crefydd, perthnasoedd teuluol, hobïau a diddordebau. Rydym hefyd yn ystyried a all ein gofalwyr fodloni gofynion cynllun gofal y plentyn.

Trafodir pob achos posibl o baru gyda'r gofalwr maeth ac rydym yn ystyried anghenion pob plentyn yn y cartref i sicrhau bod y paru yn ddiogel ac yn briodol i bawb. Mae ein paru hefyd yn ystyried unrhyw gymorth ychwanegol y gallwn ei gynnig, gan gynnwys cymorth therapi ac addysg, i helpu i ddiwallu anghenion y plentyn.

Y Tîm Lleoliadau sy'n cael yr atgyfeiriadau ar y dechrau, ac maen nhw'n cysylltu'n agos â'r tîm gwaith cymdeithasol, cydweithwyr yn yr awdurdod lleol a gofalwyr maeth er mwyn sicrhau y bydd anghenion y plentyn yn cael eu diwallu'n llawn drwy'r paru gorau posibl.

Rydym yn cymryd y penderfyniad i leoli plentyn yn ddifrifol iawn ac mae pob penderfyniad i leoli yn cael ei oruchwylio gan Reolwyr Gweithrediadau Calon Cymru Fostering, er mwyn sicrhau ein bod wedi gwneud y paru gorau posibl ar gyfer y plentyn a'r gofalwr maeth. Ni fydd disgwyl byth i blant a phobl ifanc rannu ystafell wely gyda phlentyn arall ac eithrio pan fyddant yn frodyr a chwiorydd, a byddai hyn yn rhan o'r broses baru.

# Cymorth i'n Teuluoedd Maeth

## Cymorth a ddarperir gan Weithwyr Cymdeithasol Goruchwyliol:

Mae gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol Calon Cymru Fostering yn cydnabod, er nad oes ganddynt gyfrifoldeb rheoli achosion dros y plentyn, mai eu cyfrifoldeb nhw yw sicrhau bod anghenion y plentyn a chanlyniadau personol yn hollbwysig. Cynhelir cyfarfodydd goruchwylio misol rhwng y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a'r gofalwr maeth (yn amlach os oes angen).

Mae cyfarfodydd goruchwylio yn canolbwyntio ar gefnogi gofalwyr maeth i gyflawni canlyniadau i blant a phobl ifanc ac asesu materion diogelu. Mae gan y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol gyfrifoldeb hefyd am gynorthwyo'r gofalwr yn ei ddatblygiad gyrfa, gan nodi anghenion hyfforddi a datblygu a dulliau ar gyfer datblygu sgiliau a gwybodaeth y gofalwr. Mae cofnod o oruchwyliaeth yn weladwy i'r gofalwr maeth drwy gronfa ddata'r asiantaeth.

Mae gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn sicrhau eu bod yn gweld ac yn siarad â phlant a phobl ifanc ar eu pen eu hunain yn rheolaidd wrth ymweld â'r aelwyd faethu.

## Grwpiau Cymorth:

Cynhelir grwpiau cymorth gofalwyr maeth yn rheolaidd ar draws rhanbarthau Calon Cymru Fostering, er mwyn galluogi gofalwyr maeth i gyfarfod a chymdeithasu gyda'i gilydd, rhannu syniadau arferion da, datblygu cymorth gan gymheiriaid, a chael gwybodaeth gan yr asiantaeth.

## Cymorth Argyfwng:

Mae Calon Cymru Fostering yn darparu gwasanaeth ar alwad 24/7, 365 diwrnod y flwyddyn, i ofalwyr maeth, wedi'i staffio gan weithiwr cymdeithasol goruchwyliol Calon Cymru Fostering sydd â mynediad at Reolwr Gweithrediadau i gael cyngor. Mae uwch-reolwyr hefyd ar gael pan fo angen.

## Adolygiad Blynyddol:

Mae pob gofalwr maeth yn cael adolygiad blynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i faethu a bod eu cymeradwyaeth fel gofalwr maeth yn briodol. Mae'r Swyddog Adolygu Annibynnol, gyda chymorth Calon Cymru Fostering, yn sicrhau bod yr holl ofynion statudol yn cael eu cyflawni, a bod gan ofalwyr maeth y cyfle i werthuso eu ymarfer a'u datblygiad, a gosod nodau a chynlluniau gweithredu newydd ar gyfer y flwyddyn ganlynol.

## Polisïau a Gweithdrefnau:

Mae gan ofalwyr maeth fynediad at Lawlyfr Maethu cynhwysfawr. Mae'r llawlyfr yn cynnwys gwybodaeth, polisïau a gweithdrefnau ar bob agwedd o faethu, ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i sicrhau ei fod yn parhau i fod yn ddogfen gyfeirio berthnasol.

## Cadw Cofnodion:

Disgwylir i'n gofalwyr maeth gynnal cofnodion dyddiol ynghylch y plentyn neu'r unigolyn ifanc sydd mewn lleoliad. Mae hyn er mwyn sicrhau bod diogelu yn parhau i fod yn gadarn ac rydym yn creu cronoleg o fywyd plentyn neu unigolyn ifanc. Mae'r rhain yn cael eu creu a'u storio'n ddiogel yn ein system ffeiliau ar-lein, CHARMS.

**Cefnogi Plant sy'n Maethu:**

Mae Calon Cymru Fostering yn cydnabod y cyfraniad sylweddol y mae plant sy'n maethu yn chwarae mewn lleoliadau llwyddiannus. Darperir digwyddiadau a chyfleoedd i ganiatáu iddynt ddod ynghyd a thrafod gyda staff yr asiantaeth a phlant eraill yr effaith, gadarnhaol a negyddol, o rannu eu cartrefi a'u teuluoedd.

**Aelodaeth Foster Talk:**

Mae pob gofalwr maethu a staff Calon Cymru yn cael aelodaeth flynyddol o Foster Talk. Mae hyn yn caniatáu i aelodau gael mynediad at gyngor ynghylch materion ariannol, cyfreithiol ac yswiriant.

**Cyllid:**

Mae pob gofalwr maethu cymeradwy Calon Cymru Fostering yn cael lwfans, a delir bob pythefnos drwy gydol y lleoliad. Mae lefel y lwfans hwn yn dibynnu ar y math o leoliad. Mae pob gofalwr maeth yn hunangyflogedig ac, felly, rhaid iddynt dalu eu treth a'u Yswiriant Gwladol eu hunain. Mae canllawiau ariannol manwl ar gael drwy dîm cyllid yr asiantaeth neu drwy Foster Talk.

**Diogelu Data:**

Rydym yn defnyddio system ddiogel wedi'i hamgryptio i anfon gwybodaeth yn allanol am bobl ifanc a gofalwyr maeth. Rydym yn cymryd diogelu data o ddifrif ac wedi sicrhau bod yr holl staff wedi cael hyfforddiant ar y maes pwnc hwn, gan gynnwys egwyddorion y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), er mwyn sicrhau bod gwybodaeth bersonol/sensitif yn cael ei phrosesu'n gyfreithlon, yn ddiogel ac yn saff.

**Cael Hwyl:**

Rydym yn cydnabod bod gofalu am blant pobl eraill yn fusnes difrifol a gall fod yn heriol ac weithiau'n llawn straen. Mae Calon Cymru Fostering yn annog gofalwyr maeth i ddod at ei gilydd a chymdeithasu ac elwa ar gymorth gan eraill. Rydym yn trefnu digwyddiadau cymdeithasol yn rheolaidd, lle gall gofalwyr gael hwyl gyda phobl o'r un anian. Rydym hefyd yn darparu aelodaethau Cadw am ddim i bob teulu maethu.

**Diogelwch yn ein Cartrefi Maeth:**

Mae gan Calon Cymru Fostering ddisgwyliadau uchel o ran ansawdd a safonau'r cartrefi maethu a ddarperir. Mae pob aelwyd faethu yn destun ymweliadau dirybudd rheolaidd ac asesiad iechyd a diogelwch cadarn, ac mae pob gofalwr maeth wedi'i hyfforddi mewn cymorth cyntaf pediatrig. Mae gan bob aelwyd faethu bolisi gofal mwy diogel generig sy'n cael ei adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol. Mae gan bob plentyn a leolir bolisi gofal mwy diogel ac asesu risg unigol sy'n cael ei ddiweddaru'n flynyddol neu yn dilyn digwyddiad..

**Hyfforddiant:**

Mae'r rhaglen hyfforddi flynyddol yn cynnwys hyfforddiant ar ystod eang o bynciau diogelu, gofal sy'n ystyriol o drawma, cefnogi iechyd meddwl plant, cymorth cyntaf, addysg a datblygiad plant. Mae anghenion hyfforddi gofalwyr yn cael eu nodi'n barhaus mewn goruchwyliaeth ac mae hyn yn llywio datblygiad ein rhaglen hyfforddi.

# Y Broses Recriwtio ac Asesus

**Mae gennym swyddog ymholiadau pwrpasol a fydd yn ymateb i bob ymholiad ac yn gwneud asesiad cychwynnol o gymhwystra i faethu. Yna bydd yr ymholiadau hyn yn cael eu trosglwyddo i'n Rheolwr Recriwtio, a fydd yn cynnal ymweliad cychwynnol â'r cartref. Bydd yr ymweliad hwn yn helpu i asesu cymhwystra ymhellach a hefyd yn darparu gwybodaeth i helpu'r ymholwr i benderfynu a yw am symud ymlaen. Anfonir gwybodaeth ysgrifenedig at yr ymholwr hefyd sy'n disgrifio ein gwasanaeth a'r gefnogaeth a'r cymorth ariannol a ddarparwn. Ein nod yw ymateb i bob ymholiad o fewn 24 awr a chynnal ymweliad cychwynnol o fewn pum diwrnod gwaith.**

Yn dilyn yr ymweliad cychwynnol, gofynnir i ymholwyr lenwi ffurflen gais sy'n cynnwys caniatâd i Calon Cymru gynnal gwiriadau statudol fel sy'n ofynnol yn y rheoliadau. Ar ôl derbyn y ffurflen gais, mae ymgeiswyr yn cael eu dyrannu i weithiwr cymdeithasol cymwys i gynnal eu hasesiad maethu ac fe'u gwahoddir hefyd i'n cwrs hyfforddi tri diwrnod ar y "Sgiliau i Faethu". Mae'r cwrs hwn yn orfodol i bob ymgeisydd.

Ein nod yw cwblhau'r asesiad o fewn pum mis. Mae ein hasesiad yn cynnwys dau gam. Yng Ngham 1, rydym yn cynnal gwiriadau statudol ac yng Ngham 2 rydym yn cwblhau asesiad cartref, gan ddefnyddio offeryn Ffurflen F Cymdeithas Mabwysiadu a Maethu Prydain. Mae'r ddau gam yn cael eu cynnal ar yr un pryd. Cyflwynir asesiadau wedi'u cwblhau i'n panel maethu, sy'n cael ei gadeirio'n annibynnol. Gwneir penderfyniadau ynghylch cymeradwyo o fewn saith diwrnod i gytuno cofnodion y panel.

Mae ein proses recriwtio ac asesu yn cydymffurfio'n llawn â deddfwriaeth a rheoliadau perthnasol Cymru ac yn glynu wrth arferion recriwtio diogel i ddiogelu ein plant.

# Y Broses Gwynion

**Mae gennym bolisi a phroses glir ar gyfer rheoli cwynion sydd ar gael i'n holl ofalwyr a rhanddeiliaid eraill. Mae gennym ni ganllaw i blant hefyd sy'n cynnwys gwybodaeth am sut y gall ein plant wneud cwynion a'r cymorth y byddant yn ei gael i'w helpu nhw i wneud hynny.**

Ein nod yw datrys cwynion yn anffurfiol. Pan nad yw hyn yn bosibl, mae gennym broses gwynion ffurfiol. Ar ddiwedd y broses ffurfiol, os nad yw'r achwynydd yn hapus â'r ffordd y cynhaliwyd ein proses gwynion ffurfiol, yna byddwn yn trefnu craffu annibynnol i benderfynu a ydym wedi gweithredu'n deg a chyda diwydrwydd dyladwy.

Rydym yn cael ein rheoleiddio gan Arolygiaeth Gofal Cymru a gellir gwneud cwynion iddynt yn uniongyrchol.

# Recriwtio a Rheoli Staff

**Mae Calon Cymru yn dilyn gweithdrefnau recriwtio mwy diogel ar gyfer ein holl staff. Mae hyn yn cynnwys cael gwiriadau gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, hanes cyflogaeth cynhwysfawr, prawf o gofrestru proffesiynol lle bo angen, a geirdaon cyflogaeth.**

Rydym yn sicrhau ein bod yn recriwtio'n deg. Bydd unrhyw un sydd ag anabledd neu sydd ag anghenion penodol yn cael ei nodi a'i gefnogi lle bo angen er mwyn galluogi pob ymgeisydd addas i wneud cais. Caiff ymgeiswyr sydd wedi cyrraedd y rhestr fer eu cyfweld a'u sgorio ar eu gallu i gyflawni disgrifiad a manyleb y swydd.

# Sicrhau Ansawdd a Llywodraethiant

**Mae gan Calon Cymru Reolwr Sicrwydd Ansawdd amser llawn sy'n adrodd yn uniongyrchol i Gyfarwyddwr Calon Cymru. Mae'r Rheolwr Sicrhau Ansawdd yn darparu adroddiadau ysgrifenedig rheolaidd i'r Grŵp Rheolwyr ar faterion sy'n ymwneud ag ansawdd y gwasanaeth, gan gynnwys asesiadau, cymorth a goruchwyliaeth. Mae gennym hefyd Reolwr Cadw Gofalwyr Maeth sy'n darparu cymorth ac ymyrraeth ychwanegol mewn sefyllfaoedd lle mae ein proses sicrhau ansawdd yn nodi problemau unigol ar gyfer gofalwyr maeth.**

Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ysgrifennu Adroddiad Ansawdd Gofal bob chwe mis sy'n cael ei ystyried gan y tîm uwch-reolwyr. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â dangosyddion ansawdd megis cydymffurfedd rheoleiddiol, cwynion a honiadau, materion diogelu, a chanlyniadau plant.

Adolygir canlyniadau plant bob tri mis a chwblheir cerdyn sgôr o'r cynnydd y mae pob plentyn yn ei wneud yn ein gofal. Mae'r data hwn yn cael ei adolygu gan yr Unigolyn Cyfrifol bob chwe mis ac yn cael ei adrodd yn Adroddiad Ansawdd Gofal y gwasanaeth.

Rydym yn ymgynghori'n rheolaidd â'n gofalwyr, plant a rhanddeiliaid i gael adborth ar sut y gallwn wella ein gwasanaeth a'r gofal a ddarparwn. Mae hyn yn cynnwys fel a ganlyn –

- Grwpiau cymorth gofalwyr maeth misol ledled De Cymru a fynychir gan staff
- Cyfarfod cyswllt gofalwyr maeth bob chwarter dan gadeiryddiaeth ein Rheolwr Cadw Gofalwyr Maeth
- Arolwg blynyddol i ofalwyr maeth ar ansawdd y cymorth maen nhw'n ei gael
- Ymweliadau gan yr Unigolyn Cyfrifol â chartrefi gofal maeth, grwpiau cymorth a chyfarfodydd tîm staff
- Arolygon ansawdd ym mhob adolygiad blynyddol gofalwr
- Gwerthusiad o hyfforddiant gofalwyr maeth

Mae Tîm Rheoli Calon Cymru yn cyfarfod bob dau fis i ystyried adborth ar y gwasanaeth a gwelliannau ynddo, gan gynnwys materion o ymweliadau'r Unigolyn Cyfrifol a'r Adroddiad Ansawdd Gofal.

# Amrywiaeth a Chynhwysiant

**Mae Calon Cymru Fostering yn ymdrechu i greu diwylliant cynhwysol lle mae pob math o amrywiaeth yn cael ei werthfawrogi a'i ddathlu.**

Rydym am gynrychioli'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu a gweithio i sicrhau nad oes unrhyw blentyn nag unigolyn ifanc, ymgeisydd, gofalwr na gweithiwr yn cael ei drin yn annheg ar sail hil, rhyw, oedran, anabledd, crefydd na hunaniaeth. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi gwahaniaethau a chyfraniadau unigol ac yn credu mewn anelu at gyflawni cydraddoldeb i bawb.

# Cymryd Rhan

**Mae ein gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a'n gweithwyr cymorth yn siarad â'r plant a'r bobl ifanc mewn lleoliad Calon Cymru Fostering ar eu pen eu hunain yn rheolaidd.**

**Mae strategaeth cymryd rhan yr asiantaeth yn cynnwys y canlynol:**

- Cymorth i ddilyn hobi neu ddiddordeb.
- Gwaith unigol neu mewn grŵp, gan gynnwys gweithgareddau strwythuredig.
- Gweithgareddau cymdeithasol i blant sy'n maethu.
- Mynediad at sefydliadau cenedlaethol.
- Cymorth ymarferol gyda chludiant neu fynediad at wasanaethau / cyfleusterau allanol.
- Cyswllt dan oruchwyliaeth â theuluoedd.
- Gwaith taith bywyd.
- Paratoi ar gyfer annibyniaeth.
- Darparu arweiniad a chymorth therapiwtig i ofalwr maeth y plant.

Mae llais y plentyn / unigolyn ifanc a'u cyfranogiad o bwys canolog i ddatblygiad parhaus Calon Cymru Fostering. Mae rôl y gweithiwr cymorth yn cynnwys canolbwyntio ar waith cymryd rhan sy'n cynorthwyo'r asiantaeth i ddatblygu gwasanaethau. Ymgynghorir â phlant a phobl ifanc ar bolisïau ac maent yn rhoi eu barn inni ynghylch datblygiadau ar gyfer yr asiantaeth ac yn cymryd rhan mewn ymgynghori a chyfrannu o dan arweiniad y bobl ifanc. Mae plant a phobl ifanc yn cael eu cynnwys yn rheolaidd ar baneli cyfweld ar gyfer staff newydd ac yn darparu cwestiynau i ddarpar ofalwyr maeth pan gânt eu cyflwyno i'r panel.

Mae'r asiantaeth yn cynhyrchu cylchlythyr sy'n cynnwys mewnbwn gan blant a phobl ifanc. Dyma le i'n pobl ifanc arddangos eu doniau ac mae'n cynnwys eu gwaith celf, cerddi, straeon, jôcs a phosau ac yn dathlu unrhyw gyflawniadau.

# Iaith a Chyfathrebu (gan gynnwys y Gymraeg)

**Mae Calon Cymru Fostering wedi parhau i fod wedi ymrwymo i ddiwallu anghenion unigol plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Mae hyn yn amlwg yn y cymorth a ddarparwyd gan nifer o'n gweithwyr cymdeithasol a'n rheolwyr sy'n gallu cyfathrebu mewn nifer o ieithoedd, gan gynnwys Cymraeg, Pwyleg a Bengaleg..**

Fel sefydliad, rydym hefyd wedi defnyddio gwasanaethau dehongli a chyfieithu. Mae gan yr asiantaeth nifer o aelodau staff sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl, sydd wedi ein galluogi i gyfathrebu â phlant a phobl ifanc a goruchwylio gofalwyr drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Calon Cymru Fostering yn parhau i fod wedi ymrwymo i weithredu a datblygu'r cynnig rhagweithiol. Oherwydd amrywiaeth y grŵp staff, mae hyn wedi bod yn hylaw.

# Cysylltiadau Defnyddiol

## Arolygiaeth Gofal Cymru

Llywodraeth Cymru,
Parc Busnes Rhyd-y-car,
Merthyr Tudful, CF48 1UZ

**Ffôn** 0300 7900 126
**E-bost** ciw@gov.wales

## Rocio Cifuentes, Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Llewellyn
Parc Business Glan yr Harbwr,
Heol yr Harbwr
Port Talbot SA13 1SB

**Ffôn** 01792 765600
**E-bost** post@childcomwales.org.uk

## Grŵp Gofal Cymdeithasol BSN

4 Jardine House,
Harrovian Business Village,
Bessborough Road,
Harrow, HA1 3EX

www.bsnsocialcare.co.uk

## Swyddfa Caerdydd Calon Cymru

12 Lambourne Crescent,
Parc Busnes Caerdydd, Llanisien,
Caerdydd, CF14 5GF

**Ffôn** 02920 81 1173

## Swyddfa Caerfyrddin Calon Cymru

Ystafell 6, Tŷ Myrddin,
Heol yr Hen Orsaf,
Caerfyrddin, SA31 1LP
**Ffôn** 01267 223112